Solicitors Regulation Authority

# Dadansoddiad o amrywiaeth gweithlu ffyrmiau cyfraith Cymru

26 March 2024

English [https://update.sra.org.uk/sra/equality-diversity/diversity-profession/diverse-legal-profession/breakdown-welsh-law-firms-workforce-diversity/] Cymraeg

Mae'r trosolwg hwn yn ymdrin â chyfreithwyr a gweithwyr eraill sy'n gweithio mewn ffyrmiau cyfraith a reoleiddir gan yr SRA ac sydd â'u prif swyddfa yng Nghymru. Mae wedi'i seilio ar ddata a gasglwyd gan y ffyrmiau yn haf 2023. Nid yw'n cynnwys swyddfeydd cangen sydd wedi'u lleoli yng Nghymru os yw'r brif swyddfa yn Lloegr.

Mae'r data wedi'i gymryd o'n teclyn data amrywiaeth ffyrmiau [https://update.sra.org.uk/solicitors/resources-archived/diversity-toolkit/law-firm-diversity-tool/] sy'n caniatáu ichi weld dadansoddiad amrywiaeth pobl mewn gwahanol gategorïau rôl.

Cafodd y categorïau hyn eu diweddaru yn 2023 trwy rannu'r grŵp partneriaid yn 'bartneriaid sy'n gyfreithiwr ecwiti llawn' a 'phartneriaid sy'n gyfreithiwr â chyflog neu ecwiti rhannol'. Er hwylustod, byddwn yn cyfeirio at y grwpiau hyn fel partneriaid 'ecwiti llawn' a phartneriaid 'cyflogedig'. Rydym yn edrych ar y categori partner yn ei gyfanrwydd pan geir tueddiadau nodedig dros amser.

Mae modd hidlo'r teclyn data amrywiaeth ffyrmiau i weld y data yn ôl nodweddion penodol, gan gynnwys maint y ffyrm, ei lleoliad a'i math o waith. Dim ond un hidlydd a all gael ei ddewis ar y tro felly does dim modd hidlo data Cymru yn ôl maint y ffyrm. Gweler ein trosolwg o boblogaeth gyfan y ffyrmiau [https://update.sra.org.uk/sra/equality-diversity/diversity-profession/diverse-legal-profession/#table] i gael diffiniad o'r categorïau rôl.

Open all [#]

## Rhyw

Mae cyfran y cyfreithwyr benywaidd mewn ffyrmiau cyfraith yng Nghymru yn fwy na chyfran y dynion, ac mae'n dal i godi:

- Mae 57% o'r cyfreithwyr yn fenywod, dim newid ers 2021
- Mae 40% o'r cyfreithwyr yn ddynion, i lawr o 41% yn 2021
- Roedd yn well gan 0.2% o'r cyfreithwyr ddisgrifiad arall, i fyny o 0.1% yn 2021.

Gan hepgor yr ymatebion 'gwell gen i beidio â dweud', menywod yw 59% o'r holl gyfreithwyr mewn ffyrmiau cyfraith yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â 48% o boblogaeth gweithlu Cymru [https://www.ons.gov.uk/file?uri=/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/headlinelabourforcesurveyindicatorsforwaleshi10/ yn 2023.

Mae'r gwahaniaethau'n dod yn fwy amlwg wrth edrych ar y swyddi uwch:

- Mae 35% o'r partneriaid ecwiti llawn yn fenywod
- Mae 54% o'r partneriaid cyflogedig yn fenywod
- Mae 68% o'r cyfreithwyr yn fenywod.

O edrych ar dueddiadau dros amser ar gyfer pob partner (gan mai dim ond ar gyfer 2023 y mae'r rhaniad rhwng partner ecwiti llawn a phartner cyflogedig gennyn ni), cyfran y menywod ar lefel partner yw 41%, i fyny o 33% yn 2015. Roedd yn well gan 4% o'r partneriaid beidio â dweud (i fyny o 2% yn 2021) ac roedd yn well gan 2% o'r cyfreithwyr beidio â dweud (i fyny o 1% yn 2021).

O ran staff eraill ffyrmiau cyfraith Cymru, roedd cyfran lawer uwch o fenywod (83%) na dynion (16%), ac roedd yn well gan 2% beidio â dweud.

## Ethnigrwydd

Roedd cyfreithwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 5% o'r holl gyfreithwyr sy'n gweithio mewn ffyrmiau cyfraith yng Nghymru. Dyma'r dadansoddiad ar gyfer y grŵp hwn:

- 3% Asiaidd
- 0% Du (wedi'i dalgrynnu o 0.49%)
- 2% Lluosog/Cymysg
- 0% o Grwpiau ethnig eraill (wedi'i dalgrynnu o 0.2%).

Gan hepgor yr ymatebion 'gwell gen i beidio â dweud', roedd cyfreithwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn ffyrmiau cyfraith yng Nghymru yn 6%, yr un gyfran â phoblogaeth Cymru [https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/ethnicity/bulletins/ethnicgroupenglandandwales/census2021#how-ethnic-composition-varied-across-england-and-wales] yn 2021.

Y dadansoddiad ar gyfer y grŵp hwn yw:

- 3.1% Asiaidd (o'i gymharu â 2.9% o boblogaeth Cymru)

- 0.5% Du (o'i gymharu â 0.9% o boblogaeth Cymru)
- 1.8% Lluosog/Cymysg (o'i gymharu ag 1.6% o boblogaeth Cymru)
- 0.2% o Grwpiau ethnig eraill (o'i gymharu â 0.9% o boblogaeth Cymru).

Wrth edrych ar y swyddi uwch:

- Mae cyfran y partneriaid ecwiti llawn sy’n Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn ffyrmiau cyfraith yng Nghymru yn 4% o'i gymharu â 5% o’r partneriaid cyflogedig.
- Mae cyfran y partneriaid Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn ffyrmiau cyfraith yng Nghymru wedi cynyddu tri phwynt canran ers 2015 (2% i 5%).

Roedd cyfran fwy o bartneriaid ecwiti llawn y byddai'n well ganddynt beidio â dweud eu hethnigrwydd (6%), o'i gymharu â phartneriaid cyflogedig (3%). Wrth edrych ar bartneriaid yn gyffredinol, roedd yn well gan 5% beidio â dweud (i fyny o 4% yn 2021) o'i gymharu â 3% o’r cyfreithwyr (i fyny o 2% yn 2021).

O ran staff eraill ffyrmiau cyfraith Cymru, roedd cyfran y bobl o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn 6%, gyda 2% yn dewis 'gwell gen i beidio â dweud' (dim newid ers 2021).

## Anabledd

Datganodd 7% o'r cyfreithwyr mewn ffyrmiau cyfraith yng Nghymru anabledd, o'i gymharu ag 16% o weithlu'r Deyrnas Unedig [https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/labourmarketstatusofdisabled gyfan. Mae hyn yn gynnydd o 3% yn 2015. Yn 2023, dywedodd 6% fod eu gweithgareddau ychydig yn gyfyngedig, ac 1% eu bod yn gyfyngedig iawn.

O ddadansoddi hyn yn ôl y swyddi uwch:

- Datganodd cyfran fwy o bartneriaid ecwiti llawn anabledd (5%) na phartneriaid cyflogedig (3%).
- Dywedodd 5% o'r partneriaid ecwiti llawn fod eu gweithgareddau ychydig yn gyfyngedig, 2% eu bod yn gyfyngedig iawn. Dywedodd 6% o'r partneriaid cyflogedig fod eu gweithgareddau ychydig yn gyfyngedig, 0% eu bod yn gyfyngedig iawn.
- Roedd yn well gan gyfran fwy o bartneriaid ecwiti llawn beidio â dweud a oedd ganddynt anabledd (5%), o'i gymharu â'r partneriaid cyflogedig (3%).

(Sylwch y gallai rhai canrannau ymddangos fel sero oherwydd talgrynnu.)

Wrth edrych ar bartneriaid yn eu cyfanrwydd, datganodd 5% anabledd (dim newid ers 2021), o'i gymharu ag 8% o'r cyfreithwyr (i fyny o 6% yn 2021).

O ran staff eraill ffyrmiau cyfraith Cymru, datganodd 8% anabledd gyda 4% yn ffafrio peidio â dweud.

## Cefndir economaidd-gymdeithasol

### Galwedigaeth y rhieni

Rydym wedi adrodd am alwedigaeth y rhieni yn unol â'r dull cenedlaethol, gan ddefnyddio tri chategori i nodi cefndir economaidd-gymdeithasol:

- Mae'r categori economaidd-gymdeithasol proffesiynol (uwch) yn cynnwys galwedigaethau proffesiynol modern a thraddodiadol a rheolwyr neu weinyddwyr uwch, canol neu is.
- Mae'r categori economaidd-gymdeithasol canolradd yn cynnwys galwedigaethau clerigol a chanolradd a pherchnogion busnesau bach sy'n cyflogi llai na 25 o bobl.
- Mae'r categori economaidd-gymdeithasol is (dosbarth gweithiol) yn cynnwys galwedigaethau technegol a chrefftau a phobl ddi-waith hirdymor.

Gan hepgor yr ymatebion 'gwell gen i beidio â dweud', mae 57% o'r cyfreithwyr sy'n gweithio mewn ffyrmiau cyfraith yng Nghymru o gefndir proffesiynol. Mae hyn yn cymharu â 37% ar draws y Deyrnas Unedig yn genedlaethol [https://socialmobility.independent-commission.uk/resources/socio-economic-diversity-and-inclusion-employers-toolkit/] .

Gan gynnwys yr ymatebion 'gwell gen i beidio â dweud', dyma gefndir economaidd-gymdeithasol y cyfreithwyr mewn ffyrmiau cyfraith yng Nghymru:

- 52% o gefndir proffesiynol
- 15% o gefndir canolradd
- 23% o gefndir economaidd-gymdeithasol is
- 2% arall
- Roedd yn well gan 8% beidio â dweud.

Pan fyddwn yn torri hyn i lawr yn ôl y swyddi uwch:

- Mae cyfran fwy o bartneriaid cyflogedig o gefndir proffesiynol (59%) na phartneriaid ecwiti llawn (53%).
- Dim ond 17% o'r partneriaid ecwiti llawn sy'n dod o gefndir economaidd-gymdeithasol is o'i gymharu â'r partneriaid cyflogedig (20%).
- Roedd yn well gan gyfran fwy o'r partneriaid ecwiti llawn beidio â dweud (12%), o'i gymharu â'r partneriaid cyflogedig (6%).

O ran staff eraill ffyrmiau cyfraith Cymru, mae'r gyfran sydd o gefndir proffesiynol (37%) yn debyg i'r gyfran sydd o gefndir economaidd-gymdeithasol is (36%).

**Ysgol**

Mewn ffyrmiau cyfraith yng Nghymru, aeth 9% o'r cyfreithwyr i ysgol annibynnol/ysgol sy'n codi ffioedd, ac aeth 2% i'r ysgol y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Aeth 83% o'r cyfreithwyr i ysgol wladol.

Gan hepgor yr ymatebion 'gwell gen i beidio â dweud', aeth 10% o'r cyfreithwyr i ysgol annibynnol/ysgol sy'n codi ffioedd o'i gymharu â 7.5% ar draws y Deyrnas Unedig yn genedlaethol [https://www.gov.uk/government/statistics/schools-pupils-and-their-characteristics-january-2019] .

Pan fyddwn yn torri hyn i lawr yn ôl y swyddi uwch:

- Aeth 12% o'r partneriaid ecwiti llawn i ysgol annibynnol/ ysgol sy'n codi ffioedd, o'i gymharu â 10% o'r partneriaid cyflogedig
- Aeth 77% o'r partneriaid ecwiti llawn i ysgol wladol, o'i gymharu â 86% o'r partneriaid cyflogedig
- Roedd yn well gan 10% o'r partneriaid ecwiti llawn beidio â dweud o'i gymharu â 3% o'r partneriaid cyflogedig.

O ran staff eraill ffyrmiau cyfraith Cymru, aeth 4% i ysgol annibynnol/ ysgol sy'n codi ffioedd, aeth 4% i ysgol y tu allan i'r Deyrnas Unedig, ac aeth 87% i ysgol wladol. Roedd yn well gan 5% o staff eraill beidio â dweud.

## Oedran

Mae'r gyfran fwyaf o'r cyfreithwyr yn ffyrmiau cyfraith Cymru yn y categori oedran 35-44 (28%), ac yna 25-34 (24%) a 45-54 (21%).

O'i gymharu â'r boblogaeth gyfan o gyfreithwyr, mae poblogaeth gynyddol o bartneriaid ecwiti llawn mewn ffyrmiau cyfraith yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu patrwm gyrfa oedran arferol cyfreithwyr a phryd y gallent ddisgwyl cyflawni partneriaeth ecwiti llawn:

- Mae'r gyfran fwyaf o bartneriaid ecwiti llawn yn 45-54 oed (31%), a'r gyfran fwyaf nesaf yw 55-64 oed (30%).
- Mae 41% o'r partneriaid cyflogedig yn 35-44 oed a'r gyfran fwyaf nesaf yw 45-54 oed (28%).

O edrych ar bartneriaid yn gyffredinol, 45-54 oed (30%) yw'r gyfran fwyaf, o'i gymharu â chyfreithwyr lle mae'r gyfran fwyaf yn 25-34 oed (37%).

O ran staff eraill ffyrmiau cyfraith Cymru, mae'r gwasgariad yn fwy cyson ar draws y categorïau oedran ac eithrio 65+, ond mae'r gyfran fwyaf yn 25-34 oed (26%).

## Crefydd

Mae pob canran wedi'i thalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Mae hyn yn golygu bod rhai wedi'u talgrynnu i 0%.

Yng Nghyfrifiad 2021 [https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/religion/bulletins/religionenglandandwales/census2021#religion-in-england-and-wales] , dewisodd 6% o bobl Cymru beidio ag ateb y cwestiwn hwn, o'i gymharu â 10% o'r holl gyfreithwyr mewn ffyrmiau cyfraith yng Nghymru sy'n ateb ei bod yn well ganddyn nhw beidio â dweud. Pan fyddwn yn dadansoddi'r holl grwpiau ffydd:

- Mae 49% yn Gristnogion (o'i gymharu â 44% o boblogaeth Cymru)
- Does gan 36% ddim crefydd neu gred (o'i gymharu â 47% o boblogaeth Cymru)
- Mae 2% yn Fwslemiaid (o'i gymharu â 2% o boblogaeth Cymru)
- Mae 1% yn Fwdhyddion (o'i gymharu â 0% o boblogaeth Cymru)
- Mae gan 1% unrhyw grefydd neu gred arall (o'i gymharu â 0% o boblogaeth Cymru)
- Mae 0% yn Hindwiaid, Iddewon neu Sikhiaid (o'i gymharu â 0% o boblogaeth Cymru)

O ddadansoddi'r boblogaeth o gyfreithiwr yn ôl y swyddi uwch:

- Mae 54% o'r partneriaid ecwiti llawn a 57% o'r partneriaid cyflogedig yn Gristnogion
- Mae 1% o'r partneriaid ecwiti llawn a'r partneriaid cyflogedig yn Fwslimiaid
- Dywedodd 28% o'r partneriaid ecwiti llawn a 29% o'r partneriaid cyflogedig nad oedd ganddyn nhw grefydd neu gred
- Roedd yn well gan 14% o'r partneriaid ecwiti llawn ac 11% o'r partneriaid cyflogedig beidio â dweud.

O edrych ar y partneriaid yn eu cyfanrwydd, mae 55% yn Gristnogion, 1% yn Fwslimiaid, a phob grŵp ffydd arall yn talgrynnu i 0%. O blith y cyfreithwyr, mae 45% yn Gristnogion, 2% yn Fwslimiaid, 1% yn Fwdhyddion neu Hindwiaid, a phob grŵp ffydd arall wedi'i dalgrynnu i lawr i 0%.

O ran staff eraill ffyrmiau cyfraith Cymru, dim crefydd neu gred yw'r grŵp mwyaf (49%), ac yna Cristnogion (37%), Mwslimiaid ac unrhyw grefydd neu gred arall (1%). Roedd yn well gan 8% o'r staff eraill beidio â dweud.

## Cyfrifoldebau gofalu

Solicitors Regulation Authority

O blith y cyfreithwyr sy'n gweithio mewn ffyrmiau cyfraith yng Nghymru, mae gan 37% gyfrifoldebau gofalu am blant, ac mae gan 10% gyfrifoldebau gofalu am eraill.

Mae gan gyfran uwch o'r partneriaid cyflogedig gyfrifoldebau gofalu am blant (47%) na'r partneriaid ecwiti llawn (36%). Ond, mae gan gyfran ychydig yn fwy o'r partneriaid ecwiti llawn gyfrifoldebau gofalu eraill (11%) na'r partneriaid cyflogedig (10%).

O edrych ar y partneriaid yn gyffredinol, mae gan 40% (cynnydd o 34% yn 2015) o'r partneriaid gyfrifoldebau gofalu am blant o'i gymharu â 36% (cynnydd o 33% yn 2015) o'r cyfreithwyr. Mae gan 11% o'r partneriaid gyfrifoldebau gofalu eraill (i lawr o 19% yn 2015) o'i gymharu â 10% o'r cyfreithwyr (i lawr o 13% yn 2015).

O ran staff eraill mewn ffyrmiau cyfraith yng Nghymru, mae gan 23% gyfrifoldebau gofalu am blant, ac mae gan 11% gyfrifoldebau gofalu eraill.

## Cyfeiriadedd rhywiol

Oherwydd y niferoedd bach, dangosir yr ystadegau hyn i 1 lle degol.

Yng nghyfrifiad 2021, nid atebodd 7.6% o boblogaeth Cymru [https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/sexuality/bulletins/sexualorientationenglandandwales/census2021] y cwestiwn hwn, o'i gymharu â'n cyfradd ninnau lle mae'n well gan 7.9% beidio â dweud. Ar draws y boblogaeth o gyfreithwyr mewn ffyrmiau cyfraith yng Nghymru:

- Atebodd 1.9% eu bod yn hoyw neu'n lesbiaidd (o'i gymharu â 1.5% o boblogaeth Cymru)
- Atebodd 0.9% eu bod yn ddeurywiol (o'i gymharu ag 1.2% o boblogaeth Cymru)
- Roedd yn well gan 0.3% ddisgrifiad arall (yr un fath â phoblogaeth Cymru)

Wrth edrych ar y swyddi uwch:

- Mae 2% o'r partneriaid ecwiti llawn yn nodi eu bod yn LHD, o'i gymharu â 2.7% o'r partneriaid cyflogedig
- Roedd yn well gan 13.4% o'r partneriaid ecwiti llawn beidio â dweud, o'i gymharu â 6% o'r partneriaid cyflogedig
- O edrych ar bartneriaid yn gyffredinol, mae 2.2% yn nodi eu bod yn LHD, o'i gymharu â 3.2% o'r cyfreithwyr.

O ran staff eraill ffyrmiau cyfraith Cymru, mae 4.9% yn nodi eu bod yn LHD ac mae'n well gan 0.6% ddisgrifiad arall.

## Hunaniaeth rhywedd

Yn 2021, dewisodd 6.3% o boblogaeth Cymru [https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/genderidentity/bulletins/genderidentityenglandandwales/census202 beidio ag ateb y cwestiwn hwn, o'i gymharu â'n cyfradd ninnau lle mae'n well gan 3.1% beidio â dweud (sylwch ar yr amod ynglŷn â'r data yma ar wefan SYG). Ar draws y boblogaeth o gyfreithwyr mewn ffyrmiau cyfraith yng Nghymru:

- Mae 0.9% o'r cyfreithwyr yn datgan bod eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'w rhyw cofrestredig adeg eu genedigaeth (o'i gymharu â 0.4% o boblogaeth Cymru)
- Mae hyn yn gynnydd o 0.3% ers 2021.

Wrth edrych ar y swyddi uwch:

- Dywedodd 0.5% o'r partneriaid ecwiti llawn fod eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'w rhyw cofrestredig adeg eu genedigaeth, o'i gymharu â 0.3% o'r partneriaid cyflogedig
- Roedd yn well gan 5.6% o'r partneriaid ecwiti llawn beidio â dweud, o'i gymharu â 2.7% o'r partneriaid cyflogedig
- Wrth edrych ar y partneriaid yn gyffredinol, dywedodd 0.4% fod eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'w rhyw cofrestredig adeg eu genedigaeth, o'i gymharu ag 1.2% o'r cyfreithwyr.

O ran staff eraill mewn ffyrmiau cyfraith yng Nghymru, dywedodd 1.2% fod eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'w rhyw cofrestredig adeg eu genedigaeth. Cafwyd cynnydd o 0.5% ers 2021 yn yr ymatebion 'gwel